OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2017 No. 201

## Rheoliadau Cofrestru Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017

### RHAN 4

### Amodau ac Adroddiadau

**Cais i amrywio neu ddileu amod**

**12.**—(1) Yn y rheoliad hwn—

ystyr "cais" ("*application*") yw cais gan y person cofrestredig o dan adran 15(1)(a) o'r Ddeddf i amrywio neu ddileu amod mewn perthynas â chofrestriad y person hwnnw; ac

ystyr "dyddiad effeithiol arfaethedig" ("*proposed effective date*") yw'r dyddiad y mae'r person cofrestredig yn gofyn amdano fel y dyddiad y mae'r amrywiad neu'r dileu y gwneir cais amdano i gymryd effaith.

(2) Rhaid i gais—

(a) bod yn ysgrifenedig ar ffurf a gymeradwyir gan yr awdurdod cofrestru;

(b) cael ei anfon neu ei ddanfon i'r awdurdod cofrestru heb fod yn llai na chwe wythnos cyn y dyddiad effeithiol arfaethedig neu unrhyw gyfnod byrrach (os oes un) cyn y dyddiad hwnnw y cytunir arno â'r awdurdod cofrestru;

(c) cael ei anfon gyda'r wybodaeth a bennir ym mharagraff (3); a

(d) cael ei anfon gyda'r ffi a ragnodir yn Rheoliadau 2017.

(3) Mae'r wybodaeth a ganlyn wedi ei phennu—

(a) y dyddiad effeithiol arfaethedig;

(b) rhesymau'r person cofrestredig dros wneud y cais;

(c) manylion newidiadau y mae'r person cofrestredig yn bwriadu eu gwneud o ganlyniad i'r amrywio neu'r dileu y gwneir cais amdano, gan gynnwys manylion ynghylch—

(i) newidiadau strwythurol arfaethedig i'r fangre;

(ii) staff, cyfleusterau neu gyfarpar ychwanegol, newidiadau o ran rheoli neu unrhyw newidiadau eraill sy'n ofynnol i sicrhau bod y newidiadau arfaethedig yn cael eu rhoi ar waith.

(4) Rhaid i'r person cofrestredig ddarparu i'r awdurdod cofrestru unrhyw wybodaeth arall neu ddogfennau eraill y mae'r awdurdod cofrestru yn eu gwneud yn rhesymol ofynnol mewn perthynas â'r cais.

**Adroddiad o ran hyfywedd ariannol**

**13.** Os yw'n ymddangos i'r person cofrestredig fod y practis deintyddol preifat yn debygol o beidio â bod yn hyfyw yn ariannol ar unrhyw adeg o fewn y 6 mis canlynol, rhaid i'r person cofrestredig gyflwyno adroddiad ynghylch yr amgylchiadau perthnasol i'r awdurdod cofrestru.